Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Llanfyllin
# Llanfyllin
# Powys

**SY22 5BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/05/2016**

## Cyd-destun

Ysgol gymysg ddwyieithog naturiol ar gyfer disgyblion 11-18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Powys yw Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Mae'r ganolfan chwaraeon a'r ysgol gynradd yn rhannu'r defnydd o'r campws. Mae niferoedd y disgyblion wedi dirywio tua 17% ers yr arolygiad diwethaf. Mae 824 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gyda 141 yn y chweched dosbarth, o gymharu â 1,001 adeg yr arolygiad diwethaf yn Ebrill 2009 pan oedd 195 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn nhref fach wledig Llanfyllin yng ngogledd y sir ac mae'n gwasanaethu dalgylch mawr. Daw tua hanner y disgyblion o ardaloedd gwledig o amgylch Llanfyllin. Mae tuag un o bob pump o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol o'r ochr arall i'r ffin â Lloegr yn Swydd Amwythig.

Daw tuag 82% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith, a daw 18% o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg. Mae tua 18% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfatebol yn yr ysgol. Mae un disgybl yn cael cymorth o ran addysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Caiff disgyblion o bob gallu eu derbyn gan yr ysgol. Mae gan 1.3% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, a nodwyd bod angen cymorth ar 23% arall o ddisgyblion. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae bron 6% o ddisgyblion yn yr ysgol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%.

Penodwyd y pennaeth a'r dirprwy bennaeth i'w swyddi ym Medi 2015. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth, un pennaeth cynorthwyol sydd hefyd yn rheolwr busnes yr ysgol, a thri uwch arweinydd a benodwyd yn ddiweddar iawn.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn 2015-2016 yw £3,951 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd ym Mhowys yw £4,565 a'r isafswm yw £3,778. Mae Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn y nawfed safle o'r 11 ysgol uwchradd ym Mhowys o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi aros uwchlaw cyfartaledd y teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf
- mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A*-A mewn TGAU wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn gyson
- ym mwyafrif y gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol
- mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i adalw gwybodaeth
- mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella'n gyson, ac maent yn cyd-fynd â deilliannau wedi'u modelu ar y cyfan
- mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol
- mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig â phob gweithgaredd ac maent yn gweithio'n dda mewn grwpiau
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi a phryder at bobl eraill

Fodd bynnag:

- dirywiodd perfformiad mewn llawer o ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn 2015
- mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn gyson is nag ysgolion tebyg
- mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl
- mae disgyblion wedi gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd ddiwethaf
- mewn lleiafrif o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn rhy ddibynnol ar yr athro, ac mae ganddynt strategaethau cyfyngedig ar gyfer dysgu'n annibynnol
- mae cyfyngiadau ar ddewisiadau sydd ar gael yn cyfyngu ar y ddarpariaeth ar gyfer ychydig iawn o ddisgyblion
- mae gormod o anghysondeb yn ansawdd y profiadau dysgu ar gyfer disgyblion
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd o ran datblygu ei darpariaeth ar gyfer medrau
- mae ansawdd yr addysgu a'r asesu yn amrywio gormod

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- yn ystod cyfnod byr, mae'r uwch arweinwyr newydd wedi gweithio'n dda i ennyn ymddiriedaeth a chymorth staff, disgyblion a rhieni
- mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n golygu bod disgyblion yn ganolog i bob agwedd ar waith yr ysgol
- mae strwythur rheolwyr llinell diwygiedig yn darparu llinellau atebolrwydd clir
- mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o'u rôl
- mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn realistig ac arfarnol yn bennaf
- mae arweinwyr canol wedi dechrau dadansoddi data yn briodol

Fodd bynnag:

- mae cynnydd wrth fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol wedi bod yn rhy araf
- nid yw'r hunanarfarniad yn canolbwyntio ddigon ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi a safon y gwaith y maent yn ei gynhyrchu
- mae ansawdd hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a monitro cynnydd gan arweinwyr canol yn rhy anghyson
- ni chaiff arweinwyr eu dwyn i gyfrif yn ddigon da am wella safonau ac ansawdd yr addysgu
- nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth ymateb i argymhellion o'r arolygiad diwethaf

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella'r cydlyniad a'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Gwella trefniadau amserlennu i sicrhau bod ansawdd y profiadau dysgu yn gyson ar gyfer pob disgybl

A4 Gwella safonau addysgu ac asesu

A5 Gwella ansawdd a chysondeb hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a monitro cynnydd

A6 Cynyddu atebolrwydd ar gyfer arweinwyr ar bob lefel ar gyfer gwella safonau ac ansawdd yr addysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y rhan fwyaf o ddangosyddion wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf. Yn 2015, roedd perfformiad mewn llawer o ddangosyddion yn is nag ydoedd yn 2012.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi dangos ychydig iawn o welliant dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae'n gosod yr ysgol yn gyson yn y 50% is o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim.

Mae canran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A* neu A mewn TGAU wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn gyson. Fodd bynnag, dirywiodd yn raddol dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi amrywio ond mae wedi aros uwchlaw cyfartaledd y teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf. Er bod perfformiad yn 2015 wedi dirywio, mae'r ysgol yn aros yn y 50% uwch o ysgolion tebyg, ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim ac yn unol â deilliannau wedi'u modelu. Yn 2015, dirywiodd perfformiad yn nhrothwy lefel 2, ac mae'n gosod yr ysgol yn ôl yn y 50% is o ysgolion tebyg ar ôl ei gosod yn y 50% uwch yn 2014.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C mewn Safon Uwch neu gyfwerth a'r pwyntiau cyfartalog ehangach wedi dirywio'n sylweddol yn 2015. Mae'r perfformiad hwn ymhell islaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn 2015, mae cyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-A neu gyfwerth wedi dirywio i'w bwynt isaf mewn pedair blynedd ac mae islaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 3 wedi dirywio ac mae islaw cyfartaledd y teulu.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae disgyblion wedi gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd ar i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Fodd bynnag, mae perfformiad yn 2015 islaw deilliannau wedi'u modelu ac mae'n gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae perfformiad bechgyn yn y pynciau hyn yn is nag ydyw ar gyfer bechgyn yn y teulu. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg wedi gwella dros dair blynedd. Yn gyffredinol, mae bechgyn yn perfformio'n well na bechgyn mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad merched wedi dirywio yn 2015 ac mae eu perfformiad yn is na'r cyfartaledd ar gyfer merched yn y teulu yn y rhan fwyaf o ddangosyddion.

Yn 2015, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella mewn rhai dangosyddion. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion wedi dirywio, ac nid yw'r grŵp hwn yn perfformio cystal â'r cyfartaledd ar gyfer y rhai yn y teulu o ysgolion yn gyson.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae pob disgybl yn parhau i fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Nid oes unrhyw ddisgyblion, dros y pum mlynedd ddiwethaf, wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig.

Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ar y cyfan. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad wedi gosod yr ysgol naill ai yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff llawer o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster yn Gymraeg, ac at ei gilydd, mae mwyafrif o ddisgyblion yn yr ysgol yn ennill cymhwyster lefel 2.

Ym mwyafrif y gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn dda a gallant gymhwyso'r wybodaeth hon yn dda i sefyllfaoedd newydd. Mae llawer o ddisgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â phob gweithgaredd ac yn gweithio'n dda mewn grwpiau a pharau. Yn y gwersi hyn, mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn dda i holi ac maent yn rhoi atebion manwl ac estynedig. Gallant nodi ffeithiau allweddol o ystod o ffynonellau a defnyddiant y rhain yn dda i gael ystyr i lunio casgliadau.

Mewn rhai gwersi, mae gan lawer o ddisgyblion ddiddordeb mawr yn eu dysgu eu hunain, ac maent yn gofyn cwestiynau treiddgar. Yn y gwersi hyn, maent yn datblygu eu medrau meddwl yn dda yn ystod gweithgareddau ymarferol mwy heriol. Mae mwyafrif y disgyblion yn arfarnu eu gwaith yn effeithiol.

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd nag y gallant ei wneud, yn enwedig y disgyblion mwy abl. Mae llawer o ddisgyblion yn dibynnu'n ormodol ar yr athro ac mae ganddynt strategaethau cyfyngedig ar gyfer dysgu annibynnol. Yn y gwersi hyn, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ymgysylltu'n llawn yn eu dysgu. Nid yw rhai disgyblion yn ymfalchïo digon yn eu gwaith. Yn ychwanegol, nid oes gan rai disgyblion yr hyder i ddarllen yn uchel ac ateb cwestiynau. O ganlyniad, nid yw eu medrau darllen a siarad wedi eu datblygu'n ddigonol.

Ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i adalw gwybodaeth. Maent yn dadansoddi testun yn gywir trwy frasddarllen a bwrw golwg. O roi cyfle iddynt, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n llwyddiannus ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd ac at ystod o ddibenion mewn tua hanner y pynciau. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio termau sy'n benodol i bwnc yn y cyd-destun cywir. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn briodol. Yn gyffredinol, mae safon sillafu ac atalnodi llawer o'r disgyblion llai abl yn wan.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio'r rhain yn briodol mewn rhai pynciau. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn

llunio amrywiaeth o graffiau yn gywir o'r data y maent yn ei gasglu. Fodd bynnag, mae disgyblion yn ymarfer ystod gyfyng o fedrau yn unig ar draws rhai pynciau mewn tasgau nad ydynt yn cynnwys her briodol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod r ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn mynychu gweithgareddau allgyrsiol buddiol, fel caiacio, dringo wal a beicio mynydd, sy'n datblygu eu hagwedd at gadw'n heini a byw yn iach yn dda.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gwella'n gyson ac maent yn cyd-fynd â deilliannau wedi eu modelu ar y cyfan. Mae presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf. Mae absenoldebau parhaus wedi amrywio dros y tair blynedd ddiwethaf, ond yn 2015, mae'r gyfradd yn is nag yn y flwyddyn flaenorol ac yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, mae rhai disgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill. Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn y tair blynedd ddiwethaf, ac mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd gwersi'n brydlon; mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu cymell yn dda ac yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch tuag at eu hathrawon a'u cyfoedion.

Mae cyfranogiad disgyblion wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys trwy'r cyngor ysgol, yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw ei effaith ar fywyd ysgol. Mae disgyblion yn dechrau dylanwadu ar agweddau ar addysgu a dysgu trwy fynegi eu safbwyntiau mewn arolygon adrannol gwerthfawr.

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 10 yn cwblhau cyfnod o brofiad gwaith defnyddiol sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn caffael y medrau angenrheidiol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos empathi a phryder at bobl eraill trwy eu cefnogaeth i achosion elusennol lleol a chenedlaethol, ac mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n dda at weithgareddau cymunedol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn ymweld â chartrefi preswyl lleol ar gyfer hen bobl ac yn perfformio yno. Maent yn cynhyrchu sioeau ar gyfer yr ysgol a'r gymuned leol yn rheolaidd hefyd, fel 'Cofiwch fi'.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm perthnasol, sy'n bodloni gofynion statudol ac yn bodloni anghenion ei disgyblion yn gyffredinol. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, cynigir detholiad addas o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol i ddisgyblion.

Mae partneriaeth werth chweil â rhai darparwyr lleol yn galluogi'r ysgol i ymestyn eu darpariaeth ychydig. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y cyfuniadau o bynciau sydd ar gael yn golygu bod ychydig iawn o ddisgyblion yn dibynnu gormod ar hunanastudio, er bod hynny gyda chymorth gan staff nad ydynt yn addysgu. Ni roddir digon o amser i astudio'r cwrs byr addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 4. Gall disgyblion y mae'r holl gwricwlwm neu rannau ohono wedi cael eu datgymhwyso ar eu cyfer elwa ar ddarpariaeth arall ddigonol. Mae trefniadau pontio ar gyfer y cwricwlwm yn briodol ac mae'r ysgol wedi cyflwyno tasgau pontio defnyddiol. Fodd bynnag, defnyddir y tasgau pontio yn anghyson, sy'n cyfyngu eu heffeithiolrwydd.

Ceir ystod eang o weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phynciau sy'n boblogaidd ymhlith disgyblion, a drefnir gan yr ysgol, fel band yr ysgol a chlwb drama 'Y Goeden Unig'. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion, a'u hagweddau at ddysgu.

Mae'r ysgol wedi cynnal archwiliadau defnyddiol i nodi cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, yn unol â gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio dilynol wedi cael digon o ddylanwad o ran sicrhau dull cyson ar draws meysydd pwnc ac o fewn adrannau. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o wersi'n darparu digon o gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau. Yn gyffredinol, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran datblygu ei darpariaeth ar gyfer medrau. Yn benodol, nid yw'n darparu'r lefel gywir o her mewn rhifedd a digon o gyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg wedi ei threfnu'n dda ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn. Yng nghyfnod allweddol 4, caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster lefel 2. Fodd bynnag, caiff rhai disgyblion eu cofrestru'n gynnar ar gyfer Cymraeg ail iaith, ac fe geir darpariaeth gyfyngedig i'r disgyblion hyn barhau i ddatblygu eu medrau iaith ym Mlwyddyn 11.

Mae'r nifer fach iawn o ddisgyblion sydd wedi dewis dilyn rhaglen 'Trochi', sy'n trwytho disgyblion yn yr iaith Gymraeg, wedi gwneud cynnydd cadarn. Caiff diwylliant a thraddodiadau Cymru eu datblygu'n dda trwy amrywiaeth o bynciau a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad llwyddiannus at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r tîm Eco brwdfrydig a rhagweithiol wedi bod ar flaen y gad wrth ddatblygu prosiectau cadwraeth ac ailgylchu, fel cynllun compostio ar gyfer y rhandiroedd lleol. Mae wedi datblygu cysylltiadau gwerth chweil ag ysgol yn Wganda hefyd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o wahanol ddiwylliannau yn dda.

**Addysgu: Digonol**

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio cadarnhaol â'r disgyblion. Caiff hyn effaith fuddiol ar ymddygiad a chymhelliant disgyblion. Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith cymwys ac mae ganddynt ddisgwyliadau priodol o'u disgyblion.

Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio eu gwersi'n dda i gynnwys ystod o weithgareddau sy'n adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn gosod cyflymder addas ac yn monitro cynnydd pob disgybl trwy holi ac archwilio eu dealltwriaeth yn effeithiol. Yn ychwanegol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion fyfyrio ar yr agweddau allweddol ar eu dysgu.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn darparu cyfleoedd helaeth i ddisgyblion wneud cynnydd. Maent yn gosod disgwyliadau uchel, yn cyflwyno amrywiaeth eang o weithgareddau heriol ac yn cynnig adborth llafar hynod effeithiol i symud y dysgu yn ei flaen.

Mae cynorthwywyr dysgu yn rhoi cymorth buddiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion mewn gwersi.

Mewn lleiafrif o wersi, lle mae rhediad y dysgu'n araf, nid yw gweithgareddau'n darparu her ddigonol. Yn ychwanegol, mae cyfarwyddiadau ac esboniadau athrawon yn rhy hir. Nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn annibynnol. Yn y gwersi hyn, mae tasgau'n ailadroddus ac nid ydynt y darparu ar gyfer anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol yn ddigon da. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion mwy abl eu herio ddigon ac ni chaiff disgyblion ag anghenion dysgu penodol eu cynorthwyo'n effeithiol.

Mewn rhai gwersi, nid yw athrawon yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gweithio'n ddiwyd neu'n gwrando'n astud trwy gydol y wers. O ganlyniad, mae rhai disgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Nid yw'r gwaith cartref a osodir gan athrawon ar draws yr ysgol bob amser yn ategu neu'n datblygu'r gwaith, ac yn aml, nid yw'n ddigon heriol.

Mae'r ysgol wedi datblygu polisi marcio newydd sy'n dechrau cael effaith fuddiol ar ansawdd yr adborth i ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Mae mwyafrif o athrawon yn darparu adborth ysgrifenedig defnyddiol sy'n rhoi gwybod i ddisgyblion pa mor dda y maent yn gwneud a sut gallant wella. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cywiro camsillafiadau yn briodol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithredu yn unol â hyn. Mewn lleiafrif o achosion, mae athrawon yn marcio gwaith ac mae disgyblion yn ei ailddrafftio'n effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwybod eu targedau ac yn deall sut i symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf. Mae adroddiadau i rieni'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ac maent yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwella.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio'i system olrhain ac mae'n effeithiol wrth fonitro cynnydd grwpiau o ddisgyblion a nodi amrywiadau mewn perfformiad rhwng gwahanol adrannau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Ceir darpariaeth gref ar gyfer datblygu a chefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol ag ystod o asiantaethau allanol i gynnig darpariaeth effeithiol a chydlynus. Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw

ac mae ganddi drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae grŵp gweithredu ar faeth yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y ddarpariaeth hon, er enghraifft trafod bwydlenni gyda staff ffreutur yr ysgol.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n briodol tuag at ddatblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr yn annog cyfranogiad a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol eraill.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag absenoliaeth. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus wrth wella lefelau presenoldeb am y tair blynedd ddiwethaf. Mae gan yr ysgol bolisi cynhwysfawr ar gyfer rheoli ymddygiad. Fodd bynnag, nid yw rhai athrawon yn cymhwyso'r polisi hwn yn ddigon da i ddelio â'r achosion prin o aflonyddwch lefel isel yn y dosbarth. Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar waith i ddelio â'r achosion prin o fwlio.

Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad gwerthfawr, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11 i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o strategaethau i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'n gweithio'n agos ac yn effeithiol ag ystod eang o asiantaethau allanol ac yn darparu cymorth ac arweiniad gan staff yn yr ysgol.

Mae cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'u strwythuro'n dda i fodloni anghenion disgyblion unigol. Mae'r broses adolygu flynyddol yn bodloni gofynion statudol. Mae cynlluniau addysgol unigol yn nodi targedau dysgu'n dda. Mae'r ysgol yn darparu cymorth gwerthfawr ac effeithiol ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dechrau yn yr ysgol â lefelau isel o lythrennedd a rhifedd gweithredol. Mae staff cymorth dysgu yn darparu cymorth da ar gyfer y disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon wedi sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud y cynnydd disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn ysgol hapus a chynhwysol sydd ag ethos gofalgar a chefnogol ac ymdeimlad cryf o gymuned. Mae'n hyrwyddo parch at amrywiaeth ac mae'n llwyddo i greu awyrgylch teuluol. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu difyr lle caiff pob un o'r disgyblion yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm ac ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hadeiladau a'i thir, sy'n cynnwys cyfleusterau chwaraeon gwerth chweil a theatr. Mae'n dathlu ac arddangos gwaith disgyblion yn dda. Mae'r arddangosfeydd deniadol yn cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o safonau ac yn dathlu llwyddiannau'n dda. Mae gan yr ysgol adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gwerth chweil i ddisgyblion a staff eu defnyddio. Mae'r toiledau a'r ystafelloedd newid yn briodol. Caiff adeiladau'r ysgol eu cynnal yn dda ar y cyfan, ac fe gaiff diogeled ar y safle agored ac eang ei reoli'n briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Dros y 18 mis diwethaf, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi newid yn sylweddol yn sgil penodi pennaeth a dirprwy bennaeth newydd. Yn ystod cyfnod byr, mae'r tîm arweinyddiaeth newydd wedi gweithio'n dda i ennyn ymddiriedaeth a chymorth staff, disgyblion a rhieni. Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Ers ei benodi, mae'r pennaeth wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ar sail 'dysgu rhagorol i bawb', gan sicrhau bod disgyblion yn ganolog i bob agwedd ar waith yr ysgol.

Er Medi 2015, mae'r ysgol wedi gwneud nifer o newidiadau defnyddiol i'w harferion dyddiol a'i pholisïau. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno calendr ysgol diwygiedig, i gofnodi gweithgareddau allweddol a chefnogi cyfathrebu â staff a rhieni. Mae gan yr ysgol linellau atebolrwydd clir ac mae'r pennaeth wedi cyflwyno strwythur diwygiedig o gyfarfodydd rheolwyr llinell i wella cyfathrebu rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Yn gyffredinol, mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar fwyafrif o'r materion pwysig ar gyfer arweinwyr canol, fel canlyniadau arholiadau, hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfodydd hyn, nid oes digon o drafod am y deilliannau o graffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi ac adborth o olrhain mewnol. Ar galendr diwygiedig yr ysgol, nid oes unrhyw gyfarfodydd ffurfiol ar gyfer arweinwyr canol. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd i uwch arweinwyr atgyfnerthu agweddau ar bolisi ysgol gyfan.

Ar lefel arweinyddiaeth ganol, mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Fodd bynnag, ar lefel uwch arweinyddiaeth, mae'r tîm yn fach ac mae gan y tîm ormod o gyfrifoldebau o ddydd i ddydd a chyfrifoldebau rheoli llinell sylweddol. Mae hyn yn effeithio ar y baich gwaith ac yn cyfyngu ar yr amser sydd ganddo i ganolbwyntio ar agweddau ar gynllunio strategol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno tair swydd arweinydd cysylltiol i gynyddu gallu, ond mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith ar ddarpariaeth a safonau.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio'i threfniadau rheoli perfformiad i gyd-fynd yn agosach â'i blaenoriaethau strategol. Mae'r broses yn gadarn ond mae yna anghysondeb yn ansawdd yr amcanion, ac mae hyn yn cyfyngu ar effaith a thrylwyredd y broses.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o'u rôl ac maent yn gefnogol i'r pennaeth a' tîm arweinyddiaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o lawer o'r materion sy'n effeithio ar yr ysgol a'r rhan fwyaf o'r meysydd allweddol i'w gwella. Mae ganddynt rôl addas o ran gosod cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae llywodraethwyr cyswllt yn rhoi cymorth buddiol i arweinwyr canol. Mae cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr canol yn eu galluogi i gasglu gwybodaeth am yr ysgol i lywio'u gwaith.

Er gwaethaf gwelliannau mewn presenoldeb a pherfformiad mewn rhai meysydd yng nghyfnod allweddol 4, nid yw arweinyddiaeth wedi bod yn ddigon effeithiol o ran gwella darpariaeth a safonau. Mae cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn arbennig rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith, wedi bod yn rhy araf.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi gwneud newidiadau diweddar i gryfhau'r diwylliant hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol galendr clir o weithgareddau sicrhau ansawdd a phwyntiau cofnodi data. Fodd bynnag, ni chaiff deilliannau'r gweithgareddau hyn eu cyfleu yn effeithiol i athrawon bob amser.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen ddefnyddiol. Mewn llawer o feysydd, mae'r adroddiad yn nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella'n gywir. Fodd bynnag, mae barnau mewn rhai meysydd yn rhy hael. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol briodol wrth arfarnu gwaith yr ysgol, gan gynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae'r ysgol yn gofyn yn gynyddol am safbwyntiau disgyblion a rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau hunanarfarnu'n canolbwyntio digon ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi, a safon y gwaith y maent yn ei gynhyrchu.

Mae penaethiaid adran wedi dechrau dadansoddi data perfformiad yn briodol, ac erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o berfformiad disgyblion yn eu maes. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn ansawdd yr adroddiadau hunanarfarnu hyn. Mae mwyafrif ohonynt yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol i arfarnu gwaith eu hadran mewn meysydd fel addysgu. Mae'r arfarniadau a gwblhawyd gan arweinwyr bugeiliol yn llai datblygedig. Lleiafrif ohonynt yn unig sy'n arfarnu effaith eu gwaith ar safonau disgyblion yn eu cyfnod allweddol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n dda â'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'n canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft datblygu medrau darllen disgyblion, yn ogystal â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r cynllun yn nodi camau gweithredu clir, cyfrifoldebau staff, graddfeydd amser ac adnoddau. Fodd bynnag, nid yw meini prawf llwyddiant yn ddigon penodol.

Mae arweinwyr canol yn llunio cynlluniau gwella meysydd priodol, gan ysgrifennu targedau sy'n gysylltiedig â 'Phum Pont' yr ysgol, sef: addysgu ysbrydoledig; cwricwlwm difyr; arweinyddiaeth; partneriaethau; a dysgu personol. Mae adrannau'n nodi camau gweithredu addas i ddangos sut byddant yn ymateb i'r blaenoriaethau hyn, ond nid yw nodau sy'n ymwneud â gwelliannau mewn deilliannau yn cynnwys targedau mesuradwy. Mae hanner yr arweinwyr canol wedi monitro cynnydd tuag at y targedau cytûn yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r gweithgareddau arfarnu a gwella hyn wedi dechrau effeithio ar y cysondeb yn ansawdd y marcio, ond nid ydynt wedi cael effaith ddigonol o ran sicrhau addysgu neu ddeilliannau o ansawdd cyson uchel ar gyfer disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

At ei gilydd, nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd wrth ymateb i'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol hon yn gweithio'n dda ag ystod o ysgolion uwchradd partner. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddilyn ystod eang o gyrsiau, yn enwedig cyrsiau galwedigaethol yn y sector ôl-16, trwy raglen 'Trisgol', sef partneriaeth ag ysgolion uwchradd eraill. Caiff cynnydd disgyblion ar y cyrsiau hyn ei fonitro'n dda ac mae'r ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hon.

Mae'r ysgol wedi sefydlu partneriaethau cryf ag asiantaethau allanol sy'n effeithiol o ran gwella lles disgyblion. Mae cysylltiadau â chyflogwyr yn yr ardal yn galluogi'r ysgol i ddarparu ystod o brofiadau dysgu dilys yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n gryf â'r gymuned leol, ac mae disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr at weithgareddau cymunedol ac elusennol.

Mae partneriaethau bugeiliol ag ysgolion cynradd partner yn gryf ac yn helpu disgyblion i drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n dda â rhieni. Mae'n defnyddio amrywiaeth o gyfryngau fel cylchlythyrau, negeseuon testun a'r wefan i gyfathrebu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol ac maent yn dangos diddordeb gweithredol yn addysg eu plant.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Dros y 12 mis diwethaf, bu gwelliant yn y gweithgareddau datblygiad proffesiynol sydd ar gael i staff, a'u hamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryfach ar gynorthwyo arweinwyr canol i ddatblygu eu medrau arwain a darparu cyfleoedd defnyddiol i arweinwyr ymweld ag ysgolion eraill i weld agweddau ar arfer orau. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi sefydlu naw grŵp addysgu a dysgu sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol y mae angen eu gwella, fel darpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd, addysgu a dysgu ac asesu ac adborth. Er bod staff yn frwdfrydig ynglŷn â'r cyfleoedd y gallai'r fforymau hyn eu cynnig, mewn llawer o achosion, mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod heriol yn sgil absenoldeb annisgwyl athrawon yn nifer o feysydd y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae staff yn meddu ar ystod addas o arbenigedd i gyflwyno'r cwricwlwm ysgol gyfan, er bod lleiafrif o athrawon yn addysgu tri phwnc neu fwy, ac mae rhai ohonynt yn addysgu pedwar maes pwnc neu fwy. Nid yw'r athrawon hyn wedi cael cymorth na hyfforddiant addas ar gyfer addysgu pob pwnc. Mae hyn wedi arwain at anghysondeb yn ansawdd y profiadau dysgu ar gyfer disgyblion. Mae cynorthwywyr dysgu'n darparu cymorth gwerth chweil, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r pwyllgor cyllid yn monitro cyllideb yr ysgol yn briodol. Mae'r ddarpariaeth chweched dosbarth yn gost effeithiol ac mae'r ysgol yn adolygu nifer o ddosbarthiadau bob blwyddyn i wneud yn siŵr nad yw meintiau dosbarth llai yn y chweched dosbarth yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth yng

nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Eleni, mae gan yr ysgol gynlluniau addas i ddefnyddio cyllid y grant amddifadedd disgyblion. Defnyddiwyd cyllid yn dda i wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yng ngoleuni'r deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

**6664001 - Ysgol Uwchradd Llanfyllin**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 851 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.2 |
| Grŵp PYD | 1 (PYD<=10%) |

**Cyfnod allweddol 3**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9** | 139 | 126 | 141 | 126 | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.5 | 88.1 | 88.7 | 90.5 | 90.8 | 83.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 | | |
| **Saesneg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 139 | 126 | 141 | 126 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 89.9 | 91.3 | 92.9 | 91.3 | 92.5 | 87.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 4 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 51.1 | 61.1 | 56.7 | 60.3 | 61.4 | 52.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 21 | 25 | 19 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 88.9 | 100.0 | 96.0 | 100.0 | 94.0 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 55.6 | 47.6 | 56.0 | 47.4 | 60.3 | 56.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 3 | | |
| **Mathemateg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 139 | 126 | 141 | 126 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 87.8 | 92.1 | 91.5 | 92.9 | 93.6 | 88.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 4 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 64.7 | 70.6 | 71.6 | 72.2 | 67.4 | 59.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 139 | 126 | 141 | 126 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 96.4 | 94.4 | 98.6 | 98.4 | 96.1 | 91.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 63.3 | 69.8 | 70.2 | 69.8 | 65.3 | 58.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 3 | | |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6664001 - Ysgol Uwchradd Llanfyllin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 851 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=10%) |

**Cyfnod allweddol 4**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed** | 152 | 167 | 135 | 130 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 71.7 | 62.9 | 67.4 | 66.2 | 67.3 | 57.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 92.1 | 85.0 | 92.6 | 88.5 | 87.1 | 84.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 99.3 | 97.0 | 100.0 | 100.0 | 98.2 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 69.7 | 60.5 | 66.7 | 63.8 | 64.3 | 54.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 3 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 380.2 | 365.1 | 382.5 | 370.8 | 361.4 | 343.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 376.8 | 363.4 | 377.8 | 368.6 | 358.5 | 338.7 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 35.5 | 32.3 | 33.3 | 27.7 | 21.7 | 16.6 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 78.3 | 70.7 | 71.9 | 75.4 | 75.0 | 68.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 3 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 78.3 | 71.9 | 80.0 | 74.6 | 72.4 | 64.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 78.9 | 74.9 | 83.0 | 90.0 | 85.6 | 84.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 3 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf:** | 19 | 30 | 18 | 21 | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | 89.5 | 80.0 | 72.2 | 76.2 | 81.7 | 75.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 2 | | |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6664001 - Ysgol Uwchradd Llanfyllin**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 851 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 5.2 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=10%) |

**Cyfnod allweddol 4 - perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | 11 | 8 | * | 5 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 36.4 | 25.0 | * | 20.0 | 31.3 | 31.6 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 72.7 | 50.0 | * | 40.0 | 63.8 | 69.4 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 100.0 | 87.5 | * | 100.0 | 95.0 | 89.4 |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 36.4 | 25.0 | * | 20.0 | 30.0 | 29.3 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 340.7 | 301.6 | * | 267.1 | 312.5 | 303.7 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 333.1 | 299.9 | * | 267.1 | 307.0 | 296.4 |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 18.2 | 0.0 | * | 0.0 | 2.5 | 4.3 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 54.5 | 62.5 | * | 40.0 | 45.0 | 45.1 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 36.4 | 25.0 | * | 40.0 | 38.8 | 39.2 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 45.5 | 62.5 | * | 80.0 | 78.8 | 74.4 |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf:** | . | . | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf: Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | 48.5 | 51.5 |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

**6664001 - Ysgol Uwchradd Llanfyllin**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y chweched dosbarth 179

**Cyfnod allweddol 5**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | | |
| **Nifer y disgyblion 17 oed** | 85 | 80 | . | 95 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog fesul disgybl** | 806.1 | 1059.5 | . | 738.2 | 909.7 | 799.7 |
| **Nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch:** | 83 | 79 | . | 92 | | |
| **O'r rheiny a gofnododd swm sydd gyfwerth â 2 gymhwyster Safon Uwch:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 3** | 100.0 | 100.0 | . | 97.8 | 98.4 | 97.0 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-A mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 12.0 | 10.1 | . | 4.3 | 6.7 | 7.9 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-C mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 63.9 | 89.9 | . | 52.2 | 79.3 | 68.1 |

Yn cynnwys pob cymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 17 oed, mewn ysgolion a gynhelir, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ar gyfer disgyblion 17 oed yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-18 yng Nghymru.

Mae trothwy lefel 3 wedi'i seilio ar nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, trwy'r ddolen gyswllt isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 209 | 123<br>59% | 84<br>40% | 2<br>1% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 44% | 52% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 208 | 81<br>39% | 113<br>54% | 13<br>6% | 1<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 57% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 209 | 94<br>45% | 108<br>52% | 6<br>3% | 1<br>0% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 208 | 55<br>26% | 117<br>56% | 30<br>14% | 6<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 56% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 208 | 92<br>44% | 94<br>45% | 16<br>8% | 6<br>3% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 209 | 55<br>26% | 144<br>69% | 10<br>5% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 61% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 207 | 89<br>43% | 105<br>51% | 10<br>5% | 3<br>1% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 208 | 34<br>16% | 114<br>55% | 45<br>22% | 15<br>7% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 204 | 110<br>54% | 87<br>43% | 6<br>3% | 1<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 46% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 208 | 23<br>11% | 131<br>63% | 46<br>22% | 8<br>4% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 56% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 208 | 68<br>33% | 104<br>50% | 31<br>15% | 5<br>2% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 29% | 50% | 17% | 5% | |

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | | 206 | | 39<br>19% | 119<br>58% | 45<br>22% | 3<br>1% | | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | | | 17% | 53% | 25% | 5% | | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | | 207 | | 84<br>41% | 115<br>56% | 8<br>4% | 0<br>0% | | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | | | 35% | 59% | 5% | 1% | | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | | 204 | | 73<br>36% | 109<br>53% | 19<br>9% | 3<br>1% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | | | 36% | 54% | 9% | 1% | | |
| The staff respect me and my background | | 208 | | 94<br>45% | 102<br>49% | 10<br>5% | 2<br>1% | | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | | | 37% | 53% | 7% | 2% | | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | | 202 | | 78<br>39% | 111<br>55% | 12<br>6% | 1<br>0% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | | | 36% | 56% | 7% | 1% | | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | | 82 | | 29<br>35% | 36<br>44% | 14<br>17% | 3<br>4% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | | | 28% | 51% | 16% | 5% | | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | | 52 | | 26<br>50% | 19<br>37% | 4<br>8% | 3<br>6% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | | | 27% | 50% | 16% | 7% | | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 128 | 62 | 53 | 7 | 6 | 3 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 48% | 41% | 5% | 5% | | |
| | | 43% | 50% | 5% | 1% | | |
| My child likes this school. | 130 | 83 | 38 | 7 | 2 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 64% | 29% | 5% | 2% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 128 | 97 | 25 | 5 | 1 | 2 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 76% | 20% | 4% | 1% | | |
| | | 51% | 45% | 4% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 128 | 57 | 53 | 14 | 4 | 3 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 45% | 41% | 11% | 3% | | |
| | | 46% | 49% | 5% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 119 | 34 | 66 | 15 | 4 | 12 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 29% | 55% | 13% | 3% | | |
| | | 25% | 60% | 12% | 3% | | |
| Teaching is good. | 120 | 47 | 57 | 15 | 1 | 10 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 39% | 48% | 12% | 1% | | |
| | | 35% | 59% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 125 | 60 | 54 | 9 | 2 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| | | 51% | 46% | 2% | 1% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 123 | 35 | 63 | 17 | 8 | 7 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 28% | 51% | 14% | 7% | | |
| | | 32% | 56% | 9% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 122 | 55 | 56 | 6 | 5 | 9 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 45% | 46% | 5% | 4% | | |
| | | 36% | 52% | 10% | 3% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 128 | 47 | 68 | 10 | 3 | 3 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 37% | 53% | 8% | 2% | | |
| | | 35% | 56% | 8% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 123 | 72 | 46 | 2 | 3 | 8 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 59% | 37% | 2% | 2% | | |
| | | 43% | 53% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 115 | 45 | 55 | 11 | 4 | 13 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 39% | 48% | 10% | 3% | | |
| | | 37% | 52% | 8% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 125 | 50 | 51 | 19 | 5 | 5 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 40% | 41% | 15% | 4% | | |
| | | 35% | 51% | 12% | 3% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 128 | 79<br>62% | 41<br>32% | 5<br>4% | 3<br>2% | 3 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 43% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 118 | 39<br>33% | 58<br>49% | 19<br>16% | 2<br>2% | 11 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 31% | 56% | 11% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 123 | 59<br>48% | 52<br>42% | 10<br>8% | 2<br>2% | 6 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 101 | 41<br>41% | 43<br>43% | 14<br>14% | 3<br>3% | 28 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 32% | 55% | 11% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 126 | 48<br>38% | 59<br>47% | 16<br>13% | 3<br>2% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 37% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school is well run. | 117 | 58<br>50% | 48<br>41% | 7<br>6% | 4<br>3% | 11 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 42% | 50% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Vaughan Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Michelle Gosney | Arolygydd Tîm |
| Hywel Jones | Arolygydd Tîm |
| Bethan Whittall | Arolygydd Tîm |
| Catherine Evans | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Susan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Llyr Thomas | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

### Termau cyfnod allweddol 3

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 3 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 7 yn bennaf).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg [1]
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r disgyblion mwy abl gyrraedd lefel 6 neu uwch.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 5) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Termau cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys naw ysgol arall y mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw mewn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd A* i C. |

---

[1] Nid yw'r dangosydd hwn yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

| | |
|---|---|
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg[1] neu Saesneg a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu pum cymhwyster TGAU graddau A* i C neu gyfwerth. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch gradd A*-E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch gradd A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hyn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio | Mae hyn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Grwpiau meincnodi | Caiff ysgolion eu rhoi mewn grwpiau gyda'i gilydd yn unol â chyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn cymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg mewn dangosyddion gwahanol. |
| Deilliannau wedi'u modelu | Rhagfynegiad o berfformiad cymedrig ysgol yw hyn, yn seiliedig ar y berthynas ystadegol rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dangosydd penodol. |